Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
72/2022

DYDDIAD CYHOEDDI:
24/11/2022

# Gwasanaethau Modd 5: Ymchwil archwiliadol â busnesau a chyrff masnach

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-025-5

Gwasanaethau Modd 5: Ymchwil archwiliadol â busnesau a chyrff masnach

Awdur: IFF Research

| Ar gael ar: https://llyw.cymru/gwasanaethau-modd-5-ymchwil-archwiliadol-busnesau-chyrff-masnach |
| --- |

Y barnau a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barnau'r ymchwilydd ac nid ydynt o anghenraid yn cyfateb â barnau Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Dadansoddi Masnach

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ystadegau.masnach@llyw.cymru

# Cynnwys

Geirfa ..... 2
1. Rhagarweiniad/Cefndir ..... 3
Cyd-destun y Gwasanaethau Modd 5 ..... 3
Nodau ac Amcanion ..... 5
Strwythur yr Adroddiad ..... 6
2. Methodoleg ..... 7
Samplu a Recriwtio ..... 7
Gwaith maes ..... 11
3. Canfyddiadau ..... 13
Gwybodaeth ..... 17
4. Casgliadau ..... 19
Gwella'r sail dystiolaeth ..... 20
Atodiad A – Sgriniwr Modd 5 ..... 23
Atodiad B – Arweiniad i'r Testun am Fodd 5 – Busnesau ..... 28
Atodiad C – Arweiniad i'r Testun am Fodd 5 – Cyrff masnach ..... 33

## Geirfa

| Acronym | Diffiniad |
| --- | --- |
| GATS | Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach Wasanaethau |
| WTO | Sefydliad Masnach y Byd |

## 1. Rhagarweiniad/Cefndir

### Cyd-destun y Gwasanaethau Modd 5

1.1 Mae'r fasnach wasanaethau'n cael ei rheoleiddio ar lefel Sefydliad Masnach y Byd (WTO) gan y Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach Wasanaethau (GATS).[1] Y prif bryder gyda'r Fasnach Wasanaethau yw bod gwasanaethau'n bethau o natur anghyffwrdd (nid yw gwasanaethau'n croesi ffiniau'n ffisegol yn yr un ffordd ag y mae nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu, cyffyrddadwy, ac felly nid oes modd eu mesur yn yr un ffordd). O ganlyniad, mae GATS yn diffinio gwasanaeth yn ôl y dull, neu'r 'modd', y mae'n cael ei gyflenwi ac yn ôl y defnydd terfynol a wneir o'r gwasanaeth.

1.2 Ar hyn o bryd mae pedwar modd traddodiadol o gyflenwi o dan y GATS. Mae'r rhain wedi eu rhestru yn Nhabl 1:

**Tabl 1: Pedwar Modd y Fasnach Wasanaethau o dan y GATS**

| | | |
|---|---|---|
| Modd 1: | Trawsffiniol | Pan ddarperir gwasanaeth ar sail drawsffiniol |
| Modd 2: | Defnydd | Pan mae derbyniwr y gwasanaeth yn symud i wlad cyflenwr y gwasanaeth i dderbyn y gwasanaeth |
| Modd 3: | Masnachol | Pan mae cyflenwr gwasanaeth un aelod o'r WTO yn sefydlu presenoldeb masnachol yn nhiriogaeth aelod arall o'r WTO |
| Modd 4: | Presenoldeb person naturiol | Lle mae person 'naturiol' yn symud o un aelod o'r WTO i un arall i ddarparu gwasanaeth |

1.3 Fodd bynnag, cydnabyddir yn gynyddol bod agweddau o wasanaethau i'w cael yn gynwysedig mewn nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu, ac nad oes modd i'r agweddau hyn gael eu mesur neu eu llywio'n briodol gan y rheolau masnach cyfredol o dan y GATS. Am fod yr agweddau hyn yn sianel ychwanegol o'r gwasanaethau masnach y tu hwnt i'r pedwar modd uniongyrchol sydd wedi eu

[1] Sefydliad Masnach y Byd, Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach Wasanaethau.

rhestru yn Tabl 1, gelwir y dulliau anuniongyrchol hyn o gyflenwi gwasanaethau yn 'wasanaethau modd 5'.[2]

1.4 Un diffiniad o wasanaethau Modd 5 yw'r gwasanaethau hynny sy'n gynwysedig mewn allforion nwyddau. Mae pobl wedi disgrifio pwysigrwydd cynyddol y gwasanaethau cynwysedig hyn yn rhan o weithgynhyrchiad y nwyddau fel 'gwasaneiddio' gweithgynhyrchu (Antimiani and Cernat 2017).[3] Enghreifftiau nodweddiadol o wasanaethau modd 5 yw gwasanaethau dylunio, peirianneg a meddalwedd sydd wedi eu hymgorffori a'u masnachu yn rhan o gynhyrchion sydd wedi'u gweithgynhyrchu. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gwerthu cynnyrch a ddaw gyda chontract gwasanaethu parhaus, gwasanaethau hyfforddi neu offer diagnosis o bell; neu werthu car sy'n cynnwys gwasanaethau llywio neu ddiweddariadau i'r meddalwedd.

1.5 Am nad yw modd 5 yn cael ei gydnabod ar hyn o bryd gan reolau rhyngwladol WTO sy'n ymwneud â'r fasnach wasanaethau (h.y., y GATS), nid yw'n cael ei gydnabod yn ffurfiol mewn cytundebau masnach rydd; er bod ei weithredoedd galluogi (e.e. nwyddau, gwasanaethau digidol a phobl yn croesi ffiniau at ddibenion busnes) wedi eu cynnwys mewn cytundebau masnach rydd.

1.6 Am fod datblygiadau wedi digwydd mewn technoleg a chadwynau cyflenwi byd-eang, mae'r rhan y mae gwasanaethau cynwysedig modd 5 yn ei chwarae mewn allforion gweithgynhyrchu wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf (Antimiani a Cernat 2017). Ond, er bod y diddordeb wedi tyfu, nid yw gwasanaethau modd 5 wedi cael eu harchwilio'n ddigonol mewn dadansoddiadau ac mae bylchau allweddol yn ein dealltwriaeth ohonynt. Mae gwasanaethau modd 5 yn cefnogi swyddi, ac wrth i wasanaethau gyfrannu fwyfwy i gyflogaeth sy'n cael ei chefnogi gan allforion mae'n debyg bod gwasanaethau modd 5 hefyd yn cyfrif am gyfran gynyddol o'r llifoedd masnach (CEP 2107).– Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod

---

[2] Dan y teitl 'The significance of services trade: Mode 5 and trade policy implications', mae Arsyllfa Polisi Masnach y DU, sydd wedi ei seilio ym Mhrifysgol Sussex, wedi cynhyrchu fideo sy'n esbonio ffyrdd uniongyrchol ac anuniongyrchol o fasnachu gwasanaethau'n rhyngwladol. Mae'r fideo'n edrych ar y goblygiadau i bolisïau masnach, yn arbennig ar gyfer cytundebau masnach [Cyrchwyd 09/08/2022].

[3] Mae 'gwasaneiddio' yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio'r prosesau o ychwanegu gwerth i gynhyrchion drwy gynnig gwasanaethau.

llawer o wasanaethau'n dod yn fwy 'masnachadwy' a bod gweithgynhyrchu'n cael ei wasaneiddio.–[4]

1.7 Eto, er gwaethaf y ffaith bod y DU yn un o'r economïau sydd â'r gogwydd mwyaf tuag at wasanaethau yn y byd, gan nad oes mesur y cytunir arno'n rhyngwladol ar gyfer gwasanaethau modd 5, mae cyfraniad y fasnach wasanaethau i economi'r DU wedi ei amcangyfrif yn rhy isel (Borchert a Tamberi 2018). Wrth sôn am fodd 5, mae rhan o werth benodol y fasnach nwyddau'n deillio o'r fasnach anuniongyrchol a ddaw o wasanaethau sy'n gynwysedig mewn nwyddau. Mae gan hyn oblygiadau wrth lunio polisïau masnach ac wrth negodi cytundebau masnach rydd.

1.8 Ni phennwyd unrhyw waith ymchwil ansoddol cyhoeddedig penodol i Gymru yn ystod y cam cwmpasu ymchwil cyntaf oedd yn archwilio lefelau ymwybyddiaeth busnesau o fasnach gwasanaethau modd 5, eu profiadau ohonynt a'u barn amdanynt (yng nghyd-destun Ymadawiad â'r UE a datblygiadau polisi eraill e.e. Cytundebau Masnach Rydd). Nod yr ymchwil hwn yw helpu i find i'r afael â'r bwlch yma. I helpu Llywodraeth Cymru i ddeall y materion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau modd 5, comisiynwyd IFF Research ym mis Ebrill 2022 i wneud prosiect ymchwil archwiliadol graddfa fach gyda busnesau a sefydliadau cyrff masnach. Mae'r adroddiad hwn wedi ei seilio ar y canfyddiadau a gafwyd mewn cyfweliadau ansoddol gyda nifer bychan o fusnesau a chynrychiolwyr cyrff masnachu. Nod yr ymchwil yw rhoi cipolwg cychwynnol i Lywodraeth Cymru gan y rhanddeiliaid a gyfwelwyd a fydd o gymorth i hysbysu camau gweithredu a chamau nesaf yn y maes hwn, gan gynnwys gwybodaeth am roi cymorth priodol i fusnesau.

**Nodau ac Amcanion**

1.9 Nod cyffredinol yr ymchwil oedd deall ymwybyddiaeth a phrofiadau busnesau Cymru o wasanaethau modd 5 yn well.

1.10 Yr amcanion oedd archwilio'r canlynol gyda busnesau a sefydliadau cyrff masnach:

- lefelau ymwybyddiaeth o gwmpas wasanaethau modd 5
- profiadau o allforio gwasanaethau fel rhan o nwyddau, neu ochr yn ochr â nhw

[4] Rueda-Cantuche, M. J., Cernat, L., a Sousa, N., (2017). Trade and Jobs in Europe: The Role of Mode 5 Services Exports. Blog Masnach, y Cyngor ar Bolisïau Ewropeaidd [Cyrchwyd 9 Awst 2022].

- unrhyw effeithiau ar fusnesau o berthynas fasnachu newydd y DU â'r UE o gwmpas allforio gwasanaethau modd 5.

**Strwythur yr Adroddiad**

1.11 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi ei strwythuro fel a ganlyn:

- Mae **Adran Dau** yn crynhoi'r fethodoleg ymchwil. Mae'n esbonio sut y gwnaed yr ymchwil ac mae'n amlinellu ystyriaethau data allweddol i'w cofio wrth ddehongli'r canfyddiadau.
- Mae **Adran Tri** yn cyflwyno'r canfyddiadau o gyfweliadau gyda chynrychiolwyr busnes a chyrff masnach, wedi eu hadeiladu o amgylch y themâu a ganlyn:
    - Ymwybyddiaeth o fodd 5
    - Profiad o ymdrin â modd 5
    - Pwysigrwydd modd 5 i fusnesau
    - Heriau a gyflwynir gan fodd 5
    - Cymorth a gyrchwyd i helpu â modd 5
    - Profiadau o ffynonellau gwybodaeth am fodd 5
- Mae **Adran Pedwar** yn crynhoi casgliadau'r ymchwil.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r fethodoleg, yn cynnwys y strategaethau samplu a recriwtio, y dull casglu data a'r fframwaith dadansoddol a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil. Mae hefyd yn amlinellu rhai o'r ystyriaethau data a chyfyngiadau allweddol yn yr ymchwil.

2.2 I helpu i roi'r ymchwil yn ei gyd-destun a mireinio amcanion yr ymchwil, roedd y trafodaethau cychwynnol rhwng Llywodraeth Cymru ac IFF yn cynnwys rhoi ffocws ar ganfod y gwaith ymchwil oedd yn bodoli'n barod am wasanaethau modd 5 (er enghraifft, Borchert a Tamberi, 2018;[5] Rueda-Cantuche, Cernat a Sousa, 2019[6]) a rhai datblygiadau gan gwmnïau mwy yr adroddwyd amdanynt yn y wasg.[7]

**Samplu a Recriwtio**

*Recriwtio busnesau ar gyfer yr ymchwil*

2.3 I ddechrau, roedd y strategaeth samplu ar gyfer recriwtio busnesau i gymryd rhan yn yr ymchwil wedi ei seilio ar restr ail gysylltu blwyddyn 3 Arolwg Masnach Cymru (TSW), sef rhestr o ymatebwyr a gytunodd y cai rhywun ail gysylltu â nhw at ddibenion ymchwilio ar sail ymatebion eu busnesau i'r arolwg.[8]

2.4 Mae'r TSW yn arolwg 'gwthio i'r we'[9] ystadegol a anfonir at 8,000 o fusnesau sydd â gweithredoedd yng Nghymru. Mae'n cael ei weithredu gan IFF Research ar ran

---

[5] Borchert, I., a Tamberi, N., Medi 2018. 'Briefing Paper 22: The Engagement of UK Regions in Mode 5 Services Exports'. Arsyllfa Polisi Masnach y DU [Cyrchwyd 5 Medi 2022].

[6] Rueda-Cantuche, J. M., Cernat, L., a Sousa, N., 2019. 'Trade and jobs in Europe: The role of mode 5 service exports', *International Labour Review*, *International Labour Organization*, cyfrol 158(1), tudalennau 115-136 [Cyrchwyd 5 Medi 2022].

[7] Gwelwch, er enghraifft:

- Landers, P., The Wall Street Journal, 6 Mehefin 2022 'Sony Aims for High-End Electric Car That Bills Extra for Entertainment'. [Cyrchwyd 5 Medi 2022].
- Potts, G., Top Gear, 7 Mehefin 2022, 'The new Apple CarPlay is here to save us from carmakers' own software'. [Cyrchwyd 5 Medi 2022].

[8] Y cwestiynau am ail gysylltu a ofynnwyd yn yr arolwg oedd "A fyddech chi'n fodlon i ymchwilwyr Llywodraeth Cymru neu eu contractwyr penodedig gysylltu â chi os bydden nhw'n gwneud ymchwil dilynol ar faterion cysylltiedig? [opsiynau ymateb: byddwn, na fyddwn]"; a gofynnodd i'r busnesau hynny a ymatebodd "byddwn", "A all y detholiad ar gyfer ail gysylltu at ddibenion ymchwilio gael ei seilio ar eich ymatebion i'r arolwg? [opsiynau ymateb: gall, na].

[9] Gwneir y TSW gan ddefnyddio dull gwthio-i'r-we. Anfonir llythyr gwahoddiad dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn y post at y busnesau yn y sampl i ddechrau yn eu hannog i fynd ar-lein a chwblhau'r arolwg.

Llywodraeth Cymru, ac mae'n casglu data sy'n canolbwyntio ar wella dealltwriaeth y Llywodraeth o'r llifoedd masnach i mewn ac allan o fusnesau yng Nghymru. Ei nod yw creu gwell dealltwriaeth o economi Cymru, yn cynnwys y cysylltiadau rhwng busnesau Cymru a busnesau mewn rhannau eraill o'r DU a thramor. Rhedodd y gwaith maes ar gyfer TSW blwyddyn 3 o 13 Medi 2021 hyd 17 Rhagfyr 2021, yn casglu data 2020 gan yr ymatebwyr

2.5 Roedd TSW blwyddyn 3 yn cynnwys cwestiwn am wasanaethau modd 5. Roedd y cwestiwn wedi ei eirio yn y fath fodd fel ei fod yn gofyn y canlynol i bob busnes oedd yn dweud eu bod wedi gwerthu nwyddau yn 2020:

> "Yn y broses o werthu'r nwyddau hynny, a oes unrhyw wasanaethau cynwysedig yn rhan o'r cynnyrch cyffredinol neu'n cael eu cynnig yn rhan o werthiant y nwydd?" [opsiynau ymateb: "Oes", "Nac oes", "Ddim yn siŵr"].

Defnyddiwyd y cwestiwn hwn i ddarganfod busnesau a allai fod yn addas i gwmpas yr ymchwil. Canlyniad hynny oedd rhestr o 86 o fusnesau a ymatebodd 'oes' i werthu nwyddau oedd â gwasanaeth cynwysedig yn rhan ohonynt ac a gytunodd hefyd y byddem ni'n cael ail gysylltu at ddibenion ymchwilio o fewn yr arolwg. I gadarnhau eu bod yn addas ar gyfer yr ymchwil, cysylltwyd â'r busnesau dros y ffôn a gofynnwyd iddynt ymateb i 'sgriniwr' recriwtio. Mae copi o'r sgriniwr hwn yn yr atodiad (Atodiad A).

2.6 Roedd busnesau'n tueddu i ystyried gwasanaethau a chynhyrchion fel endidau ar wahân, a chanfu'r broses sgrinio nad oedd gan y busnesau y cysylltwyd â hwy ddealltwriaeth eang o'r derminoleg sy'n gysylltiedig â modd 5. Roedd ansicrwydd ymysg y busnesau hynny a ymatebodd i'r sgriniwr ynglŷn â beth oedd ystyr y frawddeg "…gwasanaethau cynwysedig yn rhan o'r cynnyrch cyffredinol" yng nghwestiwn blwyddyn 3 TSW am wasanaethau modd 5. Felly, gallai busnesau fod yn rhan o gylch gwaith y gwasanaethau modd 5 heb sylweddoli hynny ac, o bosib, ddod i'r casgliad ar gam nad oeddent yn addas i gwmpas yr ymchwil.

2.7 O ganlyniad, ehangwyd y gronfa o gyfranogwyr a allai fod yn gymwys trwy gynnwys busnesau ynddi oedd yn gweithredu mewn sectorau oedd yn debygol o gynnwys gwasanaethau masnach modd 5 ac a oedd wedi cytuno y gellid ail gysylltu â nhw. Mae'r sectorau hyn wedi eu rhestru yn Tabl 2: Sectorau a ddefnyddiwyd i roi hwb i'r samplochr yn ochr â'r rhestr cynhyrchion wedi eu codio'n barod a ddefnyddiwyd yn

yr arolwg TSW. [10] O’r sectorau hyn, cafodd pob un o’r 31 busnes a ymatebodd i’r cwestiwn modd 5 ac a gytunodd y gellid ail gysylltu â nhw, eu gwahodd i gwblhau’r sgriniwr. O’r rhestr o 117 o fusnesau (yr 86 a nodwyd yn wreiddiol; a 31 o fusnesau ychwanegol o’r meini prawf samplu a ehangwyd), ni lwyddwyd i gysylltu â 55 ohonynt yn ystod cyfnod y gwaith maes. O’r 62 busnes y cysylltwyd â nhw, cafodd 51 eu sgrinio allan ar sail eu hymatebion i’r sgriniwr recriwtio. O ganlyniad, cafwyd rhestr o 11 busnes oedd o fewn cwmpas amcanion yr ymchwil ac, o’r rhain, cytunodd dau fusnes i gymryd rhan yn yr ymchwil a chymerodd y ddau fusnes hyn ran.[11]

*Recriwtio cynrychiolwyr o sefydliadau masnach*

2.8 I gael trosolwg ehangach o’r materion a’r profiadau sy’n gysylltiedig â gwasanaethau modd 5, gwahoddwyd cynrychiolwyr o gyrff masnach perthnasol i gymryd rhan yn yr ymchwil hefyd. Darparwyd y sampl ar gyfer recriwtio sefydliadau masnach gan Lywodraeth Cymru, a gysylltodd â hwy i ddechrau a phasio eu manylion cysylltu i IFF unwaith y cawsent ganiatâd ganddynt y cai rhywun gysylltu. Gwahoddwyd cyfanswm o 16 o sefydliadau masnach (siambrau masnach a chyrff masnach) i gymryd rhan yn yr ymchwil. Cymerodd bedwar corff masnach ran mewn cyfweliad.

[10] Gwelwch ‘Adroddiad Technegol Arolwg Masnach Cymru, Atodiad F’ (Llywodraeth Cymru, 2018), i weld y rhestr lawn.
[11] Roedd trydydd busnes wedi cytuno i gymryd rhan, ond tynnodd yn ôl yn ddiweddarach oherwydd ymrwymiadau eraill ac nid oedd ar gael ar gyfer cyfweliad wedi ei aildrefnu o fewn cyfnod y gwaith maes.

**Tabl *2:* Sectorau a ddefnyddiwyd i roi hwb i'r sampl**

| Dosbarthiad safonol y fasnach ryngwladol (SITC) a'r rhestr cynhyrchion | |
|---|---|
| SITC 6: Nwyddau a chynhyrchion eraill wedi eu gweithgynhyrchu a ddosberthir yn bennaf yn ôl eu defnydd | Dodrefn<br>Gweithgynhyrchu sment, calch, plastr a nwyddau o goncrit, sment a phlastr<br>Gwydr, deunydd gwrthsafol, clai, porslen a cherameg arall, carreg a nwyddau sgraffiniol<br>Cynhyrchion metel ffabrigedig, ac eithrio peiriannau ac offer ac arfau a ffrwydron<br>Tlyswaith, bijouterie a nwyddau cysylltiedig<br>Darnau arian<br>Offerynnau cerddorol<br>Nwyddau chwaraeon<br>Gemau a theganau<br>Cyflenwadau ac offer meddygol a deintyddol<br>Nwyddau eraill wedi eu gweithgynhyrchu |
| SITC 7: Offer cludo a pheiriannau yn cynnwys offer trwsio a chynnal a chadw | Cynhyrchion cyfrifiadurol, electronig ac optegol<br>Offer trydanol<br>Peiriannau ac offer nad ydynt wedi eu dosbarthu mewn unrhyw le arall<br>Cerbydau modur, ôl-gerbydau a lled-ôl-gerbydau<br>Llongau a chychod<br>Awyrennau a llongau gofod a pheiriannau cysylltiedig<br>Offer cludo eraill<br>Atgyweirio a gofalu am longau a chychod<br>Trwsio a chynnal awyrennau a llongau gofod<br>Gweddill yr atgyweirio; Gosodiad |

2.9 I geisio rhoi hwb pellach i'r nifer a fyddai'n cyfranogi yn yr ymchwil, ceisiodd IFF a Llywodraeth Cymru recriwtio busnesau drwy gyrff masnach, drwy ofyn i'r cyrff masnach am gymorth i ganfod busnesau a fyddai'n addas ar gyfer cwmpas yr ymchwil drwy broses o 'recriwtiad pelen eira'.[12] Am fod gan y cyrff masnach a'r

[12] Recriwtio pelen eira, neu samplu pelen eira, yw'r dechneg recriwtio lle gofynnir i'r cyfranogwyr yn yr ymchwil helpu'r ymchwilwyr i ganfod cyfranogwyr posibl eraill.

busnesau a enwyd gyfyngiadau amser ac amserlenni prysur, ni arweiniodd hyn at unrhyw gyfweliadau pellach.

2.10 Ymestynnwyd diwedd y gwaith maes o 8 Ebrill 2022 hyd 22 Mehefin 2022 i geisio datblygu'r sampl ychwanegol hwn ac archwilio'r opsiynau recriwtio ychwanegol drwy gyrff masnach.

2.11 I ddiolch i bob un a gyfwelwyd am eu hamser yn cymryd rhan yn yr ymchwil, rhoddwyd £50 yn enw eu sefydliad i Apêl Ddyngarol Wcráin y Pwyllgor Argyfwng Trychinebau Dyngarol, wedi ei weinyddu gan IFF ar ran Llywodraeth Cymru.

**Gwaith maes**

2.12 Cwblhawyd chwe chyfweliad i gyd: dau â busnesau a phedwar â chyrff masnach. Y ddau fusnes oedd micro fusnes (3-9 o weithwyr cyflogedig) a busnes bach (10-49 o weithwyr cyflogedig), ac roedd y ddau yn y sector gweithgynhyrchu. Roedd y pedwar corff masnach yn cefnogi ac yn cynrychioli aelod-fusnesau a oedd yn y sector gweithgynhyrchu yn fras.

2.13 Cynigiwyd yr opsiwn i fusnesau gyfranogi yn y cyfweliad a/neu'r broses sgrinio ar gyfer recriwtio drwy gyfrwng y Gymraeg, a gwahoddwyd cyrff masnach i gymryd rhan mewn cyfweliadau yn y Gymraeg, ond ni cheisiwyd hynny gan unrhyw un ohonynt.

2.14 Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig drwy alwad fideo (Microsoft Teams). Cafwyd y gwaith maes rhwng 30 Mawrth a 22 Mehefin 2022. Gwnaethpwyd y cyfweliadau gan ddefnyddio arweiniad i'r testun a pharhaodd y cyfweliadau rhwng 40 a 55 munud. Defnyddiwyd fersiwn wedi ei deilwra ychydig bach ar gyfer cyfweliadau'r cyrff masnach. Gelir gweld y ddau ganllaw yn yr atodiadau (Atodiad B a C). Roedd y pynciau dan sylw yn y cyfweliadau'n cynnwys faint o ddealltwriaeth oedd ganddynt – wedi ei brocio a heb ei brocio – o fodd 5, yr iaith a ddefnyddiwyd mewn perthynas â'r gwasanaethau a gynhwyswyd mewn cynhyrchion, profiadau o fodd 5 ac unrhyw gymorth neu wybodaeth a gyrchwyd.

2.15 Cafodd yr arweiniad i'r testun ei lunio i hwyluso cyfweliad lled-strwythuredig. Roedd yn amlinellu strwythur sylfaenol y cyfweliad o amgylch y themâu allweddol oedd i gael eu harchwilio, ond heb fod yn rhy gyfyngedig. Roedd natur archwiliadol yr ymchwil, a gwahanol lefelau ymwybyddiaeth a phrofiad y rhai a gyfwelwyd yn golygu bod yr hyblygrwydd hwn yn y dull yn bwysig, er mwyn caniatáu i'r cyfwelydd

deilwra'r sgwrs a'r themâu a archwiliwyd yn y cyfweliad o amgylch ymatebion y rhai a gyfwelwyd.

2.16 Gwnaethpwyd recordiad sain o'r cyfweliadau a chymerwyd nodiadau manwl o'r recordiadau hyn. Cafodd y data ysgrifenedig ei ychwanegu i fframwaith dadansoddi yn Excel, gyda cholofnau'n adlewyrchu'r cwestiynau unigol o fewn yr arweiniad i'r testun. Yna dadansoddwyd y data o fewn y colofnau hyn a grwpiwyd y canfyddiadau ar sail themâu, gan dynnu gwahaniaethau ac elfennau cyffredin allan ohonynt i fynd i'r afael ag amcanion yr ymchwil.

2.17 Mae'r sylwadau dienw air am air a wnaed gan gyfranogwyr wedi eu cynnwys yn yr adran ganfyddiadau i helpu i ddarlunio'r prif bwyntiau. Ni ddylid dehongli'r sylwadau hyn fel rhai sy'n diffinio barn pawb a gyfwelwyd – dylid rhoi rhywfaint o syniad o safbwyntiau unigolion am y pwyntiau a nodwyd.

**Ystyriaethau'r Data**

2.18 Un o ystyriaethau allweddol y set ddata hon yw ei maint bychan. Am fod yr ymchwil hwn yn ansoddol ei natur, ar sail nifer fechan o gyfweliadau, dylid ystyried bod y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn ganfyddiadau dangosol. Hefyd, roedd y nifer bychan o gyfweliadau (n:6) yn golygu nad oedd hi'n bosibl gwneud dadansoddiad fesul sector, maint neu is-grŵp arall.

2.19 Roedd y ddealltwriaeth o'r term a'r syniad o wasanaethau modd 5 yn isel ymysg y busnesau a samplwyd, ac roedd lefel yr ymgysylltiad manwl â'r pwnc yn gyfyngedig, er bod hyn wedi ei nodi fel canfyddiad allweddol ynddo'i hun.

2.20 Dywedodd y cyrff masnach bod llawer iawn o amrywiaeth yn arferion a phrofiadau eu haelodau mewn perthynas â masnach ac, o ganlyniad, rhybuddiodd y cyrff masnach yn y cyfweliad eu bod yn rhoi safbwyntiau ar lefel gyffredinol na allai gyfleu'n llawn holl amrywiadau profiadau eu haelodau.

## 3. Canfyddiadau

3.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r cyfweliadau gan gyfeirio at y prif themâu hyn: ymwybyddiaeth o fodd 5, profiad o'i bwysigrwydd i fusnesau, unrhyw heriau a wynebwyd ac unrhyw gymorth neu wybodaeth a geisiwyd.

**Ymwybyddiaeth**

3.2 Nid oedd y term 'gwasanaethau modd 5' yn gyfarwydd i'r rhai a gyfwelwyd. Pan ofynnwyd iddynt i ddechrau i roi crynodeb o'r hyn roedden nhw'n ei ddeall am Fodd 5, roedd yr ymatebion yn awgrymu ei fod yn ymadrodd newydd i'r mwyafrif:

> "Heb glywed amdano" (Busnes Bach).

3.3 Roedd un corff masnach wedi clywed am ymadrodd ond nid oedd ganddynt ddealltwriaeth gref o'i ystyr. Er bod un person a gyfwelwyd yn gwybod ei fod yn ymwneud â rhyw elfen ychwanegol o fasnach, ni allai esbonio ei fod yn ymwneud â gwasanaeth cynwysedig. Yn lle hynny, roedd yn amau ei fod yn rhan o'r broses o wella'r nwydd ei hun, efallai yn ei gwblhau.

> "Yr ychwanegiad sy'n mynd ar yr allforion yn ystod y gweithgynhyrchu. Felly, mae'n broses a wneir yn rhywle arall, sy'n cael ei weithgynhyrchu yma, ac sydd wedyn yn cael ei werthu ymlaen. Ydw i'n gywir?" (Corff Masnach).

3.4 Ond, roedd y rhai a gyfwelwyd yn gyfarwydd â'r cysyniad sy'n sail i wasanaethau modd 5 a'r syniad o ddarparu gwasanaeth sydd wedi ei gynnwys yn rhan o'r broses o fasnachu nwyddau, er eu bod yn teimlo bod yr agweddau hyn yn bethau cwbl ar wahân. Gallai rhai pobl a gyfwelwyd roi enghreifftiau cywir o wasanaethau modd 5 – er enghraifft cynnwys meddalwedd neu waith cynnal a chadw parhaus – unwaith yr oeddent wedi derbyn esboniad o'r term.

3.5 Pan ofynnwyd iddynt 'Sut ydych chi'n disgrifio neu'n siarad am wasanaethau sydd wedi eu cynnwys yn eich gwerthiannau nwyddau?', defnyddiodd y ddau fusnes a gyfwelwyd dermau gwahanol i gyfeirio at y rhain, er enghraifft "cymorth ar ôl gwerthu", "cymorth technegol" neu "gontract gwasanaeth". Dywedodd un busnes na fyddent byth yn defnyddio geiriau fel 'gwasanaethau modd 5' oherwydd, iddyn

nhw, nid oeddent yn ystyried gwasanaeth fel peth ffisegol ac felly nid oeddent yn ei ystyried yn rhan o unrhyw allforio neu fewnforio.

3.6 Er eu bod yn ymwybodol o wasanaethau cynwysedig, dywedodd dau gorff masnach na fyddai hyn yn rhywbeth y byddai gofyn iddynt gefnogi eu haelodau ag o. Soniodd y ddau y byddai eu ffocws ar helpu i fasnachu nwyddau, ac roedd unrhyw wasanaethau a ddeuai law yn llaw â hynny y tu hwnt i'w cylch gwaith. Y prif reswm a roddwyd am hyn oedd bod modd i wasanaethau oedd heb eu cyfyngu gan ffiniau gael eu darparu'n ddigidol, felly roedd llai o angen am gymorth. Dywedasant hefyd nad oedd eu haelodau'n gofyn am arweiniad ganddynt gyda gwasanaethau modd 5 neu nid oeddent erioed wedi dweud eu bod eisiau cymorth, naill ai am nad oeddent yn teimlo bod angen cymorth neu am fod ymwybyddiaeth eu haelodau o fodd 5 yn gyfyngedig.

3.7 Hefyd roedd y cyrff masnach a gyfwelwyd yn teimlo bod profiadau eu haelodau mor amrywiol nes bod gwasanaethau modd 5 yn rhy eang i fusnesau ymwneud â hwy:

> "Mae'r ateb i hynny mor amrywiol am ei fod yn dibynnu ar yr hyn sy'n cael ei allforio, i le, a chymhlethdod y nwyddau perthnasol. Mae hwnnw'n gwestiwn enfawr o eang i sefydliad fel ein un ni. Rydym yn ymdrin â dwy fil a hanner o gwmnïau; a bydd sefyllfa pob un o'r cwmnïau hyn yn unigryw" (Corff Masnach).

3.8 Soniodd un corff masnach a gyfwelwyd bod gwasanaethau modd 5 yn tyfu, ac o ganlyniad i hynny, roeddent yn disgwyl i'r ymwybyddiaeth ymysg eu haelodau dyfu ac i wasanaethau modd 5 ddod yn rhan fwy o fasnach. Roedd dealltwriaeth y corff masnach hwn a gyfwelwyd o wasanaethau modd 5 wedi ei seilio ar arloesi yn y dyfodol ac yn ymwneud yn benodol â digido.

> "Mae'n esblygu. Bydd yn parhau i fynd yn fwy" (Corff Masnach).

**Profiad**

3.9 Roedd un busnes a gyfwelwyd yn darparu gwasanaethau a gwarantau yn y DU yn bennaf, lle byddai nwyddau'n cael eu gwasanaethu'n ffisegol o fewn y 12 mis cyntaf ar ôl eu prynu, ac roedd hefyd wedi dechrau cynnig gwasanaeth ochr yn ochr â'u hallforion nwyddau; yn ddiweddar roeddent wedi dechrau cynnig eu gwasanaethau i gwsmeriaid drwy drydydd parti yn America.

3.10 Roedd y busnes arall a gyfwelwyd yn darparu gwasanaeth cymorth ar ôl gwerthu bob amser gyda'r nwyddau a werthwyd ganddynt, ond roeddent yn tueddu i beidio gwasanaethu'r rhain yn ffisegol oherwydd y gost, felly roeddent yn cynnig gwasanaeth o bell yn lle hynny. Cafodd y gwasanaeth ei gyflwyno'n wreiddiol i helpu'r busnes i ddod yn flaenllaw yn y diwydiant drwy fod yr un unig gwmni i gynnig y ddarpariaeth hon.

3.11 Dywedodd y cyrff masnach a gyfwelwyd nad oedd ganddynt brofiad, neu mai ychydig iawn o brofiad oedd ganddynt, o ymgysylltu â gwasanaethau modd 5 drwy eu haelodau. Fel cyrff masnach, soniodd y rhai a gyfwelwyd eu bod yn tueddu i helpu mwy gyda nwyddau ffisegol; ond, dywedodd un neu ddau o'r rhai a gyfwelwyd y gallai eu sefydliad ddarparu cymorth anuniongyrchol mewn perthynas â gwasanaethau modd 5, er enghraifft, drwy helpu i wneud cais am fisa i beiriannydd meddalwedd fel y gallai deithio dramor.

**Pwysigrwydd**

3.12 Fel arfer roedd cyrff masnach a gyfwelwyd yn ei chael hi'n anodd cyfleu pwysigrwydd gwasanaethau modd 5 i'w haelodau o ran y maint o drosiant neu elw yr oedd y modd hwn yn ei gynhyrchu i fusnesau. Ond, roedd y cyrff masnach a gyfwelwyd yn teimlo bod gwasanaethau modd 5 yn rhan bwysig o fasnach rhai busnesau (er nad oedd hynny'n cael ei gydnabod yn agored) o ran cynhyrchu incwm rheolaidd a hefyd annog busnes dro ar ôl tro am fod prynwyr offer (fel peiriannau neu gynhyrchion technegol) yn ddibynnol ar gymorth ar ôl gwerthu. Felly, roedd y cyrff masnach a gyfwelwyd yn teimlo bod cyfle i fusnesau elwa o ddarparu gwasanaethau modd 5, ac roeddent yn esbonio hefyd sut y byddai peidio â darparu hyn yn gostwng hyder y cwsmer yn y cynnyrch.

3.13 Pan ofynnwyd iddynt 'Pa mor bwysig yw gwasanaethau modd 5 i'ch busnes o ran gwerth a throsiant?' dywedodd un busnes ac un corff masnach bod gwasanaethau modd 5 yn rhan hanfodol o'r model busnes. Er ei fod yn anodd ei fesur, roedden nhw'n teimlo bod cyfran y gwerthiannau oedd yn deillio o'r elfen wasanaeth gynwysedig yn weddol fach. Ond, roedd yn dal i fod yn eithriadol o bwysig. Ystyriwyd bod gwasanaethau cynwysedig yn hanfodol i enw da'r corff ac, hebddo, roedd y busnes hwn yn teimlo y byddent yn gwerthu llawer llai o nwyddau.

> "Heb y gwasanaeth [Modd 5] hwn, dim ond tua hanner y nifer o beiriannau y byddem yn eu gwerthu. Mae hyn yn gwella ein henw da" (Busnes bach).

3.14 Roedd y busnes arall a gyfwelwyd yn teimlo bod gwasanaethau modd 5 wedi cael effeithiau cryf ar eu busnes. Er enghraifft, heb i'r 'pecyn cyflawn' canfyddedig gynnig gwasanaethau cynwysedig i'r cwsmer, roeddent yn teimlo y byddai'r cwsmeriaid hyn yn chwilio am gystadleuwyr rhatach, ac roedd hyn yn ffactor a oedd yn cymell eu dymuniad i dyfu'r busnes drwy gynnig y gwasanaethau ochr yn ochr â'r nwyddau a allforir a hefyd y rheiny a werthir yn y DU.

3.15 Roedd un busnes yn teimlo bod gwasanaethau modd 5 yn bwysig iawn i gynnal lefel dda o drosiant. Mynegwyd y farn hon hefyd gan gorff masnach a gyfwelwyd, a ehangodd ar eu pwynt drwy esbonio bod arferion gwasanaethau modd 5 yn debygol o fod yn hynod o bwysig i fusnesau wrth symud ymlaen er bod yr ymwybyddiaeth o'r term yn isel, yn enwedig mewn oes gynyddol ddigidol.

> "Rwy'n gweld ei fod yn gyfle enfawr iddynt oherwydd bydd pobl yn parhau i angen cymorth ac arweiniad, p'un a ydych eisiau gwasanaeth neu gynnyrch; mae pobl yn dibynnu ar y ffaith eu bod yn dal yn gysylltiedig â'r darparydd" (Corff Masnach).

**Heriau**

3.16 Gofynnwyd i'r ddau fusnes a gyfwelwyd a oedd yr ymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd neu unrhyw ffactorau eraill wedi effeithio ar eu masnach wasanaethau modd 5. Yn eu hateb, nid oedd y busnesau hyn wedi sôn am unrhyw newidiadau amlwg i allforion gwasanaethau modd 5 mewn ymateb i newidiadau diweddar yn y tirlun allforio. Y rheswm am hyn yn ôl un o'r busnesau a gyfwelwyd oedd bod y ddarpariaeth gwasanaethau modd 5 yn newydd iawn iddynt; ac i'r llall roedd yn rhan integrol o'u model busnes na fydden nhw byth yn ei newid. Yn yr un modd, pan ofynnwyd i gyrff masnach a gyfwelwyd a oedd yr ymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd wedi effeithio ar fasnach modd 5, dywedodd y rhain nad oedd unrhyw newidiadau amlwg.

3.17 Rhoddodd y cyrff masnach a gyfwelwyd ddisgrifiad o lawer o ddatblygiadau dros y blynyddoedd diwethaf oedd wedi effeithio ar fusnesau, ond nid oeddent yn siŵr i ba

raddau yr oedd y rhain yn benodol gysylltiedig â modd 5, os oeddent o gwbl. Dyma rai o'r newidiadau y soniwyd amdanynt yn y cyd-destun hwn:

- Yr ymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd: dywedodd un a gyfwelwyd gan gorff masnach bod newidiadau i reoliadau'r Undeb Ewropeaidd ar ôl yr ymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd wedi effeithio ar y lefel o gymwysterau y mae peirianwyr meddalwedd eu hangen, a'r offer y cânt eu cymryd i'r UE.
- Y coronafeirws: er enghraifft, bod angen defnyddio Zoom, gan wneud rhai o'r gwasanaethau dilynol hynny'n llai personol.
- Sancsiynau yn Rwsia
- Deddfau hawlfraint eiddo deallusol llai tynn yn China.

**Cymorth**

3.18 Nid oedd y busnesau na'r cyrff masnach a gyfwelwyd wedi ceisio cymorth, neu fawr ddim cymorth, mewn cysylltiad â gwasanaethau modd 5. Daeth y rhai a gyfwelwyd yn ymwybodol o'r term 'gwasanaethau modd 5' drwy'r ymchwil hwn ac felly roeddent yn teimlo y dylid cael mwy o eglurhad a chyhoeddusrwydd i'r term. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn teimlo'n arbennig bod hyn yn angenrheidiol ar lefel busnes yn hytrach na thrwy bolisi neu academia yn unig. O'u gwthio ymhellach, dywedodd y rhai a gyfwelwyd y byddent yn hoffi i fusnesau gael pwynt cyfeirio mewn perthynas â gwasanaethau modd 5 ond y byddai'n well ganddynt gael cymorth cyffyrddadwy gyda'r prosesau na gormod o ffocws ar semanteg neu ddamcaniaeth.

> "Mae'n amlwg bod diffyg cyffredinol o ran hyrwyddo busnesau Cymreig yn gyffredinol – yr hyn rydym ei angen yw gwell cymorth yn hytrach na chyflwyno'r derminoleg 'modd 5' i ni. [Rydym yn gwerthfawrogi] bod gennym Lywodraeth Cymru, Busnes Cymru a'r Adran Masnach Ryngwladol, sydd oll yn wych, ond dydy busnesau ddim yn gwybod at bwy i fynd gydag ymholiadau penodol" (Corff Masnach).

**Gwybodaeth**

3.19 Pan ofynnwyd yn y cyfweliad, 'ydych chi wedi ceisio unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â gwasanaethau Modd 5 (hynny yw, allforio gwasanaethau yn rhan o nwydd)?', roedd un busnes wedi chwilio ar-lein ar ôl darllen erthygl newyddion ac

wedi sôn eu bod wedi canfod gwybodaeth ddwys, orgymhleth. Roedd un unigolyn a gyfwelwyd o gorff masnach wedi canfod dogfen 19 tudalen am wasanaethau modd 5 ar wefan comisiwn yr Undeb Ewropeaidd; ac er eu bod wedi cael hon yn eithriadol o ddefnyddiol, am nad oedd ganddynt unrhyw wybodaeth am hyn cyn ei darllen, roeddent hefyd yn teimlo bod y ddogfen yn hynod o gymhleth. Awgrymodd yr unigolyn hwn o gorff masnach a gyfwelwyd y byddai'n ddefnyddiol cael gwybodaeth haws ei darllen a'i deall, i esbonio gwasanaethau modd 5 yn well i fusnesau.

# 4. Casgliadau

**Ymwybyddiaeth isel a dealltwriaeth gyfynedig o'r term wasanaethau modd 5 ac Iaith gysylltiedig**

4.1 Nid oedd y mwyafrif o bobl a gyfwelwyd wedi clywed y term 'gwasanaethau modd 5' pan ofynnwyd am y tro cyntaf mewn cyfweliad. Er hynny, pan roddwyd y diffiniad iddynt, roedd y rhai a gyfwelwyd o fusnesau a chyrff masnach yn gyfarwydd â'r syniad o ddarpariaeth gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys fel rhan o allforio nwyddau. Y fath o wasanaethau modd 5 a drafodwyd fwyaf gan y rhai a gyfwelwyd oedd 'gwasanaeth y cwsmer a chynnal a chadw' nad oeddent yn eu hystyried yn rhan o'r gwerthiant gwreiddiol, er ei fod efallai'n rhan o warant. Roedd y rhai a gyfwelwyd o gyrff masnach yn tueddu i fod yn fwy ymwybodol o wasanaethau modd 5 ond nid oeddent wedi siarad â'u haelodau amdano. Gellid defnyddio cyrff masnach i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth busnesau o wasanaethau modd 5.

**Mae Modd 5 yn bwysig a gallai ei bwysigrwydd gynyddu**

4.2 Mae'n anodd mesur effaith ariannol modd 5 a'i berthnasedd i fusnesau o'r ymchwil hwn, ond teimlai'r rhai a gyfwelwyd bod ganddo ran bwysig i'w chwarae mewn masnach. Esboniodd un busnes hefyd sut roedd gwasanaethau modd 5 yn cynnig gwerth iddyn nhw y tu hwnt i elw ariannol. Trwy gynnig cefnogaeth barhaus ar ôl gwerthu nwyddau, ystyriwyd gwasanaethau modd 5 yn hanfodol ar gyfer sicrhau arferiad ailadroddus a meithrin ffydd cwsmeriaid yn eu busnes.

**Mae allforio nwyddau a gwasanaethau allforio yn cael eu hystyried yn ddau fath gwahanol o fasnach**

4.3 Roedd y wybodaeth a dderbyniwyd yn yr ymchwil hwn yn dangos diffyg dealltwriaeth ymysg busnesau ynglŷn â beth mae gwasanaethau modd 5 yn cwmpasu. Gwelir tystiolaeth o hyn gan y ddau fusnes a gymerodd ran mewn cyfweliad ar gyfer yr ymchwil hwn, a gan y busnesau niferus y siaradwyd â hwy yn ystod y cam sgrinio am nad oedd y mwyafrif ohonynt yn ystyried eu bod yn cynnig gwasanaethau o'r fath. I rhaddau helaeth, roedd y rhai a gyfwelwyd o gyrff masnach ac o fusnesau'n dal i ystyried bod nwyddau a gwasanaethau'n bethau ar wahân.

**Mae gwybodaeth am wasanaethau modd 5 ddim yn cyrraedd busnesau llai yng Nghymru**

4.4 Roedd y cyrff masnach a gyfwelwyd yn dangos mwy o ymwybyddiaeth o wasanaethau modd 5 na busnesau. Cyfeiriodd y rhai a gyfwelwyd at gwaith academaidd wedi ei wneud arno a ddatganiadau i'r wasg ar y pwnc gan gwmnïau mwy. Ond, roedd y data a gasglwyd o gyfweliadau â'r cyrff masnach a'r busnesau'n dangos nad yw'r ymwybyddiaeth a'r ymgysylltu hwn wedi cyrraedd busnesau llai yng Nghymru eto.

4.5 O ystyried perthnasedd cynyddol gwasanaethau modd 5 fodd bynnag, roedd canfyddiad ymhlith pobl gafodd eu cyfweld y byddai gwybodaeth am y pwnc yn lledaenu'n fuan. Er mwyn i hyn ddigwydd, ac yn benodol, i fusnesau bach ymgysylltu â modd 5 a deall ei berthnasedd iddynt, roedd y rhai a gyfwelwyd hefyd yn teimlo bod angen sawl peth. Roedd hyn yn cynnwys cyfathrebu cliriach o gwmpas beth yw gwasanaethau modd 5 ochr yn ochr â diffiniadau cryno ac enghreifftiau penodol.

**Mae awydd am fwy o ymwybyddiaeth a chymorth**

4.6 O ganlyniad i'w diffyg ymwybyddiaeth, nid oedd y rhai a gyfwelwyd o fusnesau na chyrff masnach wedi gofyn am ragor o wybodaeth neu gymorth. Ond fodd bynnag, roeddent yn chwilfrydig i ddysgu rhagor a chanfod pa fath o gymorth allai fod ar gael i fusnesau. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd eu bod yn ffafrio diffiniadau mwy cryno o wasanaethau modd 5 ac enghreifftiau sydd â'r nod o helpu busnesau i archwilio sut y gallai fod yn berthnasol iddynt.

**Gwella'r sail dystiolaeth**

4.7 Byddai unrhyw ymchwil yn y maes hwn yn y dyfodol yn gryfach os gellid casglu data gan sampl fwy o fusnesau am eu profiadau o, a'u canfyddiadau am, wasanaethau modd 5. I helpu i recriwtio pobl ar gyfer yr ymchwil gellid symleiddio rhywfaint o'r iaith sy'n gysylltiedig â gwasanaethau modd 5 a'i gwneud yn fwy clir a'i rhoi mewn iaith pob dydd. Gellid hefyd archwilio'n fanylach y syniad o recriwtio busnesau ar gyfer yr ymchwil am wasanaethau modd 5 trwy gyrff masnach dros gyfnod hirach o amser (e.e. drwy recriwtiad pelen eira).

4.8 Ar sail yr adborth a gafwyd gan gydweithwyr polisi a thrafodaeth anffurfiol â busnesau, mae cwmnïau mwy yng Nghymru'n defnyddio gwasanaethau modd 5

ond doedden nhw ddim ar gael i gymryd rhan yn yr ymchwil hwn. Byddai eu sylwadau nhw'n ddefnyddiol mewn ymchwil arall yn y dyfodol. Unwaith y bydd ymwybyddiaeth ymysg busnesau'n cynyddu, gallai ddod yn haws darganfod a recriwtio busnesau perthnasol i gymryd rhan mewn ymchwil am wasanaethau modd 5.

**Yr Adran Gyfeiriadau**


Antimiani, A., and Cernat, L., (2017). Liberalising Global Trade in Mode 5 Services: How much is it worth? No 2017-4. Notes from Directorate General for Trade, European Commission.

Borchert, I., and Tamberi, N., (2018). The Engagement of UK Regions in Mode 5 services Exports. Sussex University: UK Trade Policy Observatory

Rueda-Cantuche, M. J., Cernat, L., and Sousa, N., (2017). Trade and Jobs in Europe: The Role of Mode 5 Services Exporta. Trade Blog, Council on European Policies.

Rueda-Cantuche, J. M., and Cernat, L., (2019) Trade and Jobs in Europe: The Role of Mode 5 services Exports, International Labour Review, International Labour Organisation, vol. 158(1), pp. 115-136.

## Atodiad A – Sgriniwr Modd 5

Sgriniwr

S1 Bore / prynhawn da. Fy enw i yw NAME ac rwy'n ffonio o IFF Research ar ran Llywodraeth Cymru

**Ga i siarad â/ag [NAME FROM SAMPLE]?**

*OS OES ANGEN*: Rydym yn ffonio i siarad am astudiaeth sy'n adeiladu ar ymchwil o Arolwg Masnach Cymru y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud, lle'r ydym yn ceisio cael gwell dealltwriaeth o lifoedd masnach i mewn ac allan o fusnesau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru. Yn rhan o'r ymchwil hwn, rydym yn gobeithio siarad â chyrff masnach perthnasol fel ENW'R CORFF MASNACH

Rwy'n deall bod y tîm polisi ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â chi am yr ymchwil hwn ac maen nhw wedi pasio eich manylion ymlaen fel rhywun a fyddai efallai'n fodlon helpu.

| | | |
|---|---|---|
| Parhau | 1 | PARHAU |
| Gwrthod | 2 | DIOLCH A CHAU |

OS CÂNT EU TROSGLWYDDO

S2 Bore / prynhawn da, fy enw i yw [NAME], ac rwy'n galw o IFF Research, sy'n gwmni ymchwil annibynnol. Rydym yn gwneud gwaith ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru.

Rwy'n deall bod y tîm polisi ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â chi am yr ymchwil hwn ac maen nhw wedi pasio eich manylion ymlaen fel rhywun a fyddai efallai'n fodlon helpu

*OS OES ANGEN*: Mae'r ymchwil hwn yn adeiladu ar Arolwg Masnach Cymru, sef arolwg y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud. Mae wedi ei lunio i wella ein dealltwriaeth o lifoedd masnach i mewn ac allan o fusnesau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru. Ei nod yw creu gwell dealltwriaeth o economi Cymru, yn cynnwys y cysylltiadau rhwng busnesau yng Nghymru a busnesau mewn rhannau eraill o'r DU a thramor.

Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i wneud gwaith ymchwil i ddysgu rhagor am brofiadau busnesau o fasnachu gwasanaethau sydd wedi eu cynnwys yn rhan o'r broses o allforio nwyddau. Dyma rai o'r mathau o wasanaethau y mae gennym ddiddordeb ynddynt: gwasanaethau dylunio, peirianneg a meddalwedd sydd wedi eu cynnwys a'u masnachu yn rhan o gynhyrchion wedi'u gweithgynhyrchu. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gwerthu cynnyrch sy'n dod gyda chontract gwasanaethu parhaus,

gwasanaethau hyfforddi neu offer diagnosis o bell; neu werthu car sy’n cynnwys gwasanaethau llywio neu ddiweddariadau i’r meddalwedd.

A fyddech chi’n gallu siarad â ni am y math yma o fasnach yng Nghymru a sut mae’n effeithio ar rai o’ch aelodau?

| | | |
|---|---|---|
| Byddwn | 1 | PARHAU |
| Na | 2 | DIOLCH A CHAU |

GOFYNNWCH I BAWB

S3 Rydym hefyd yn awyddus i siarad â busnes sy’n allforio cynhyrchion o’r natur hwn. Ydych chi’n gwybod am unrhyw rai o’ch aelodau sy’n cymryd rhan yn y math hwn o fasnach?

OS ‘YDW’

S4 Fyddech chi’n fodlon ein cyflwyno ni iddyn nhw neu rannu ein manylion a gofyn iddyn nhw gysylltu â ni?

| | | |
|---|---|---|
| Byddwn | 1 | RHOWCH [cyfeiriad ebost] IDDYNT FEL CYSWLLT I GYFATHREBU AG O NEU I’W GOPÏO I MEWN I E-BOST CYFLWYNIADOL |
| Na | 2 | GOFYNNWCH A ALLAN NHW RANNU ENW’R BUSNES FEL BOD MODD I NI GYSYLLTU Â NHW DRWY’R WYBODAETH GYHOEDDUS SYDD AR GAEL AMDANYNT |

S5 Byddem yn gwerthfawrogi derbyn adborth gennych yn fawr iawn er mwyn i ni ddeall cyd-destun a phrofiad masnachu’r mathau hyn o gynhyrchion ac adeiladu sail dystiolaeth i gynnig mwy o gymorth wrth symud ymlaen.

Byddai’r ymchwil yn gofyn cymryd rhan mewn cyfweliad 30 munud drwy alwad fideo neu ffôn yn dibynnu ar eich dewis chi. I ddiolch i chi am gymryd rhan ac i dalu am eich amser, byddwn yn anfon £50 ar eich rhan i Apêl Ddyngarol Wcráin y Pwyllgor Argyfwng Trychinebau Dyngarol.

Bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol, yn unol â Chod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i’r Farchnad. Ni fydd eich ymatebion yn cael eu cysylltu yn ôl atoch chi.

GOFYNNWCH I BAWB

Ar sail y wybodaeth hon, ydych chi’n fodlon cymryd rhan?

| | | |
|---|---|---|
| Parhau | 1 | MYND YMLAEN AT YR AROLWG |
| Cyfeirio at rywun arall yn y sefydliad<br><br>ENW ______________________________<br><br>TEITL SWYDD__________________________ | 2 | TROSGLWYDDO AC AILGYFLWYNO |
| Apwyntiad caled | 3 | GWNEUD APWYNTIAD |
| Apwyntiad meddal | 4 | |
| Gwrthod | 5 | DIOLCH A CHAU |
| Gwrthod – polisi’r cwmni | 6 | |
| Gwrthod – wedi cymryd rhan mewn arolwg diweddar | 7 | |
| Ddim ar gael o fewn y cyfnod gofynnol | 8 | |

S6 Mae hynny’n wych. Diolch yn fawr. Byddwn yn cynnal y cyfweliadau ar Zoom, Teams neu dros y ffôn rhwng dydd Iau 24 Mawrth a dydd Gwener 8 Ebrill 2022. Pryd fyddai’n amser da i un o’n cyfwelwyr eich ffonio o fewn y ffrâm amser hwn?

*RECRIWTIWR:* GWNEWCH YN SIŴR BOD Y CYFWELYDD AR GAEL CYN SYMUD YMLAEN

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**<br>(Dydd Mercher 23 Chwefror a Dydd Mawrth 1 Mawrth 2022) | |
| **Amser**<br>(Cofnodwch hwn mewn amser 24 awr – a’i wneud yn ystod oriau busnes 8:30 – 18:00) | |
| **Modd** | **Zoom / Teams / Ffôn** [OS YDYNT AR Y FFÔN GWIRIWCH MAI DYMA’R RHIF GORAU] |

GOFYNNWCH IDDYNT I GYD

**S7 Diolch. Rhag ofn y bydd ein cyfwelwyr yn methu gwneud y dyddiad hwnnw, a oes unrhyw ddyddiadau eraill a fyddai’n gyfleus?**

| |
|---|
| YSGRIFENNWCH UNRHYW DDYDDIADAU ADDAS ERAILL. MAE’N DDERBYNIOL NODI ARGAELEDD MWY CYFFREDINOL (E.E. BOREAU IAU) |

| | | |
|---|---|---|
| DIM AMSEROEDD CYFLEUS ERAILL | 1 | PARHAU |

GOFYNNWCH IDDYNT I GYD

S8 I gadarnhau, a hoffech chi gael eich cyfweld yn Gymraeg?

| | | |
|---|---|---|
| Hoffwn | 1 | GADEWCH IDDYN NHW WYBOD Y BYDDWN YN TREFNU HYN GYDAG UN O'N CYFWELWYR SY'N SIARAD CYMRAEG |
| Na | 2 | |

GOFYNNWCH IDDYNT I GYD

**S9 Diolch yn fawr iawn. I gadarnhau, bydd un o ymchwilwyr IFF Research yn trefnu galwad gyda chi ar [**DATE**] am [**TIME**].**

**Allech chi roi eich cyfeiriad e-bost i mi os gwelwch yn dda er mwyn i mi gael anfon y manylion hyn atoch?**

*YCHWANEGWCH OS OES RAID:* **Dydyn ni ond yn defnyddio eich cyfeiriad e-bost i anfon manylion eich apwyntiad atoch. Ni fyddwn yn ei ddefnyddio am unrhyw reswm arall nac yn ei rannu â thrydydd parti.**

| | | |
|---|---|---|
| YSGRIFENNWCH YMA | | |
| GWRTHODWYD | 1 | PARHAU |

GOFYNNWCH I BAWB

| |
|---|
| DIOLCHWCH I'R YMATEBWYR A CHAU'R CYFWELIAD |

| |
|---|
| Yn olaf, hoffwn gadarnhau bod yr arolwg hwn wedi ei weithredu o dan gyfarwyddiadau IFF ac o fewn rheolau Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad. Diolch yn fawr iawn am eich cymorth heddiw. |

| |
|---|
| GWYBODAETH I DAWELU MEDDWL YR ATEBWR OS OES ANGEN<br><br>Bydd y cyfweliad yn cymryd tua 30 munud i'w gwblhau.<br><br>Nodwch y bydd y data i gyd yn cael ei gyfuno ar gyfer unrhyw adroddiadau ac na fydd ein cleient yn derbyn adroddiad am eich atebion mewn unrhyw ffordd a fyddai'n dangos pwy ydych chi.<br><br>Os bydd ymatebwyr eisiau cadarnhau bod yr arolwg yn ddilys neu gael rhagor o wybodaeth am nodau ac amcanion, gallent alw:<br>**[MRS: Market Research Society contact details]** |

**[IFF contact details]**

## Atodiad B – Arweiniad i'r Testun am Fodd 5 – Busnesau

NODYN I'R CYFWELYDD: Gofynnwch y cwestiynau i gyd heblaw ei fod yn nodi fel arall.

Y Cefndir (2-3 munud)

| | |
|---|---|
| • **Cyflwyno'r Cyfwelydd IFF ac IFF –** diolch am gytuno i gymryd rhan.<br>• **Cefndir yr ymchwil:** Rydym yn gwneud gwaith ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru i ymchwilio sut mae busnesau'n deall Modd 5 a sut y maent yn eu defnyddio; ac i archwilio sut mae Modd 5 yn effeithio ar fusnesau.<br>• **Cod Ymddygiad a Chyfrinachedd y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad:** Mae IFF Research yn gwmni ymchwil i'r farchnad annibynnol, sy'n gweithredu o dan ganllawiau tynn Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad. Mae hyn yn golygu bod unrhyw beth a ddywedwch wrthym yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol, ac ni fyddwn yn dangos bod eich atebion wedi dod gennych chi heblaw eich bod yn rhoi caniatâd clir i ni wneud hynny.<br>• **Mae eich cyfranogaeth yn wirfoddol –** does dim atebion cywir neu anghywir.<br>• **Defnyddio data:** Bydd yr atebion a ddarparwch yn cael eu dadansoddi gan dîm IFF Research ac yn cael eu defnyddio i ddeall yn well sut mae Modd 5 yn bodoli ar hyn o bryd ac i ba raddau y mae Modd 5 yn effeithio ar fusnesau.<br>• **Caniatâd i recordio:** Rydym yn hoffi recordio pob cyfweliad o'r natur hwn fel nad oes raid i ni gymryd llwyth o nodiadau ac hefyd er mwyn cael cofnod cywir o'n trafodaeth – dim ond at ddibenion dadansoddi y byddwn yn defnyddio'r recordiad. Bydd y recordiadau'n cael eu storio'n ddiogel mewn ffolderi na fydd unrhyw un heblaw tîm IFF Research yn gallu cael mynediad iddynt. Bydd pob recordiad yn cael eu dileu ar ddiwedd yr ymchwil.<br><br>*Gofynnwch a yw'r ymgeisydd yn hapus i gymryd rhan ac i gael caniatâd i ddechrau recordio*.<br><br>*Y cyfwelydd i ddarllen y datganiad uchod yn uchel i gael caniatâd ar lafar.*<br><br>*Dechreuwch recordio os yw'r cyfranogwr yn cytuno i gael ei recordio a chadarnhewch y caniatâd llafar.*<br><br>**Bydd y cyfweliad yn para tua 30 munud.** | ***Nodiadau'r broses***<br>*Pwrpas yr adran hon yw esbonio beth fydd dan sylw yn ystod y drafodaeth, esbonio sut y bydd eu hatebion yn cael eu defnyddio, darparu sicrhad am aros yn ddienw a gofyn am ganiatâd i recordio* |

Manylion y busnes (5 munud)

| | |
|---|---|
| Yn yr adran gyntaf hon, hoffwn ddeall ychydig bach mwy am eich busnes.<br><br>**A1. Allech chi roi crynodeb byr i mi am eich busnes o ran:**<br>• Beth mae eich busnes yn ei wneud yn bennaf<br>• Cyfranogaeth y busnes mewn allforio nwyddau a gwasanaethau<br>• Unrhyw gyfranogaeth mewn mewnforio nwyddau a gwasanaethau e.e. mewnforio peiriannau sydd wedyn yn cael eu 'gwasanaethu' o bell o wlad dramor e.e. offer coedwigaeth ac amaethyddol<br><br>**A2. Mewn ychydig eiriau, allwch chi ddweud wrthyf am rôl eich swydd? Beth yw eich prif gyfrifoldebau?** | ***Nodiadau'r broses***<br>*Diben yr adran hon yw casglu gwybodaeth allweddol am y darparwr er mwyn i ni allu creu proffil o'r darparwyr sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil a rhoi'r cyfle i gyfranogwyr 'gynhesu' cyn i ni gyrraedd craidd y drafodaeth.* |

Ymwybyddiaeth am Fodd 5 (10 munud)

| | |
|---|---|
| Hoffwn ddechrau gyda chwestiwn neu ddau am eich dealltwriaeth o Fodd 5.<br><br>**B1. Allech chi roi crynodeb i mi o beth yw Modd 5 yn eich dealltwriaeth chi?** *Os oes angen, rhowch ddiffiniad: Modd 5 yw'r agweddau hynny o wasanaethau sydd wedi eu cynnwys mewn nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu nad ydy'r rheolau masnach presennol yn gallu eu rheoli nhw'n briodol. Enghreifftiau o hyn yw gwerthu cynnyrch a ddaw gyda chontract gwasanaethu parhaus, gwasanaethau hyfforddi neu offer diagnosis o bell; neu werthu car sy'n cynnwys gwasanaethau llywio neu ddiweddariadau i'r meddalwedd*<br><br>**B2. Pa mor gyfarwydd ydych chi â'r syniad o Fodd 5?**<br><br>**B3. Sut ydych chi'n disgrifio neu'n siarad am wasanaethau sydd wedi eu cynnwys yn eich gwerthiannau nwyddau?**<br>• Sut fyddech chi fel arfer yn cyfeirio at y gwasanaethau hyn?<br>• Pa fathau o eiriau ydych chi'n eu defnyddio?<br>• A oes unrhyw ymadroddion neu derminoleg arbennig?<br><br>**OS NAD YDYNT WEDI CRYBWYLL Y TERMAU HYN YN BAROD: Ydych chi'n defnyddio'r term gwasaneiddio? Neu 'wasanaethau cynwysedig'?** | ***Nodiadau'r broses***<br>*Pwrpas yr adran hon yw deall rhagor am ymwybyddiaeth busnesau o Fodd 5 a'r geiriau maen nhw'n eu defnyddio mewn perthynas ag o* |

Effaith Modd 5 (10 munud)

| | |
|---|---|
| **C1. Sut fyddech chi'n disgrifio eich profiad o allforio gwasanaethau yn rhan o nwydd?**<br>• Allforio? Mewnforio? | *NODIADAU PROSESU:*<br>*Pwrpas yr adran hon yw deall rhagor am nodweddion allweddol* |

| | |
|---|---|
| • Ydych chi bob amser wedi cynnwys gwasanaeth neu wasanaethau yn rhan o'r nwyddau a allforiwch, neu ydy hyn yn rhywbeth a gyflwynwyd gennych?<br>• OS FELLY: Pryd wnaethoch chi gynnwys gwasanaethau yn rhan o'r nwyddau a allforiwch am y tro cyntaf? Pam wnaethoch chi gyflwyno hyn?<br><br>**C2. Pa mor bwysig yw gwasanaethau Modd 5 i'ch busnes o ran gwerth a throsiant?**<br><br>**C3. Gan feddwl am eich gwerthiannau allforio cyfan o [nwyddau/cynhyrchion], allwch chi ddweud wrthyf yn fras pa ganran o'r gwerthiannau hyn sy'n dod o elfen y gwasanaeth cynwysedig o'i gymharu â'r nwydd ffisegol ei hun?**<br><br>**C4. Ydych chi'n gweld bod gwasanaethau Modd 5 wedi effeithio/heb effeithio ar werth masnach eich nwyddau? Pam ydych chi'n dweud hyn?**<br><br>**C5. A yw eich lefel o fusnes / masnach wedi newid o ganlyniad i gyflwyno gwasanaethau yn gynwysedig mewn nwyddau?**<br><br>**C6. Beth yw'r prif bethau sydd wedi gyrru'r newid hwn? A yw eich lefel o allforion nwyddau gyda gwasanaethau'n gynwysedig ynddynt wedi newid o ganlyniad i newidiadau ehangach yn y farchnad e.e. digido, datblygiadau mewn technoleg neu reolau masnach?**<br>• Beth yw'r newidiadau hyn?<br>• Beth yw eu heffaith? | *Modd 5 a'r effaith maen nhw'n ei gael ar fusnesau* |

Heriau gyda Modd 5 (5 munud)

| | |
|---|---|
| **D1. Ydych chi wedi wynebu unrhyw heriau gyda gwasanaethau Modd 5?**<br>• Allforio? Mewnforio?<br>• Unrhyw rwystrau penodol?<br>• Ydych chi wedi goresgyn yr heriau hyn, os oes rhai?<br><br>**D2. Ydy'r ffaith bod gwasanaethau'n gynwysedig yn y nwyddau a allforiwch yn golygu eich bod yn teimlo mai dim ond i rai gwledydd ac nid i eraill y gallwch allforio?**<br>• Pa wledydd yw'r rhain?<br>• Rhowch hwb i ganfod y gwahaniaethau yng Ngogledd Iwerddon ac Iwerddon.<br><br>**D3. A yw'r ymadawiad â'r UE wedi effeithio ar eich masnach Modd 5?**<br>• Sut?<br>• A oes ffocws ar wledydd nad ydynt yn yr UE?<br>• Ydy hyn wedi golygu eich bod yn masnachu yn ddomestig bron yn llwyr<br><br>**D4. A oes unrhyw ffactorau eraill sydd wedi effeithio ar eich masnach Modd 5?**<br>• Brexit?<br>• Covid-19?<br>• Digido?<br>• Newidiadau i gadwyni cyflenwi?<br>• Unrhyw beth arall? | ***Nodiadau'r broses***<br>*Pwrpas yr adran hon yw dod i ddeall unrhyw heriau y mae busnesau wedi eu hwynebu o bosib gyda Modd 5* |

Diolch a Chau (3 munud)

| | |
|---|---|
| **E1. Ymhle ydych chi'n eich gweld eich hun fel busnes yn y tair blynedd nesaf o ran eich defnydd o wasanaethau Modd 5?**<br><br>**E2. Fel y dywedwyd eisoes rwy'n credu, mae gennym ddiddordeb hefyd mewn siarad â busnesau sy'n cymryd rhan mewn gwasanaethau Modd 5. Fyddech chi'n gallu ein helpu ni i ddarganfod rhai o'ch aelodau a fyddai efallai'n fodlon ein helpu ni gyda'r gwaith ymchwil hwn?**<br><br>**E3. Oes gennych chi unrhyw feddyliau eraill am wasanaethau Modd 5 nad ydym wedi eu trafod heddiw?**<br><br>DIOLCH I'R ATEBWR A CHAU'R CYFWELIAD | |

## Atodiad C – Arweiniad i'r Testun am Fodd 5 – Cyrff masnach

NODYN I'R CYFWELYDD: Gofynnwch y cwestiynau i gyd heblaw ei fod yn nodi fel arall.

Y Cefndir (2-3 munud)

| | |
|---|---|
| • **Cyflwyno'r Cyfwelydd IFF ac IFF –** diolch am gytuno i gymryd rhan.<br>• **Cefndir yr ymchwil:** Rydym yn gwneud gwaith ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru i ymchwilio sut mae busnesau'n deall Modd 5 a sut y maent yn eu defnyddio; ac i archwilio sut mae Modd 5 yn effeithio ar fusnesau.<br>• **Cod Ymddygiad a Chyfrinachedd y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad:** Mae IFF Research yn gwmni ymchwil i'r farchnad annibynnol, sy'n gweithredu o dan ganllawiau tynn Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad. Mae hyn yn golygu bod unrhyw beth a ddywedwch wrthym yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol, ac ni fyddwn yn dangos bod eich atebion wedi dod gennych chi heblaw eich bod yn rhoi caniatâd clir i ni wneud hynny.<br>• **Mae eich cyfranogaeth yn wirfoddol –** does dim atebion cywir neu anghywir.<br>• **Defnyddio data:** Bydd yr atebion a ddarparwch yn cael eu dadansoddi gan dîm IFF Research ac yn cael eu defnyddio i ddeall yn well sut mae Modd 5 yn bodoli ar hyn o bryd ac i ba raddau y mae Modd 5 yn effeithio ar fusnesau.<br>• **Caniatâd i recordio:** Rydym yn hoffi recordio pob cyfweliad o'r natur hwn fel nad oes raid i ni gymryd llwyth o nodiadau ac hefyd er mwyn cael cofnod cywir o'n trafodaeth – dim ond at ddibenion dadansoddi y byddwn yn defnyddio'r recordiad. Bydd y recordiadau'n cael eu storio'n ddiogel mewn ffolderi na fydd unrhyw un heblaw tîm IFF Research yn gallu cael mynediad iddynt. Bydd pob recordiad yn cael eu dileu ar ddiwedd yr ymchwil.<br><br>*Gofynnwch a yw'r ymgeisydd yn hapus i gymryd rhan a gofynnwch am ganiatâd i ddechrau recordio*.<br><br>*Y cyfwelydd i ddarllen y datganiad caniatáu uchod yn uchel i gael caniatâd ar lafar.*<br><br>*Dechreuwch recordio os yw'r cyfranogwr yn cytuno i gael ei recordio a chadarnhewch y caniatâd llafar.*<br><br>**Bydd y cyfweliad yn para tua 30 munud.** | ***Nodiadau'r broses***<br>*Pwrpas yr adran hon yw esbonio beth fydd dan sylw yn ystod y drafodaeth, esbonio sut y bydd eu hatebion yn cael eu defnyddio, darparu sicrhad o amgylch cadw'n ddienw a gofyn am ganiatâd i recordio* |

Manylion y Corff Masnach (5 munud)

| | |
|---|---|
| Yn yr adran gyntaf hon, hoffwn ddeall ychydig bach mwy am eich sefydliad.<br><br>**A1. Allech chi roi crynodeb byr i mi am eich sector o ran:**<br>• Beth mae eich busnes yn ei wneud yn bennaf<br>• Cyfranogaeth y busnes mewn allforio nwyddau a gwasanaethau<br>• Unrhyw gyfranogaeth mewn mewnforio nwyddau a gwasanaethau e.e., mewnforio peiriannau sydd wedyn yn cael eu 'gwasanaethu' o bell o wlad dramor e.e., offer coedwigaeth ac amaethyddol<br><br>**A2. Mewn ychydig eiriau, allwch chi ddweud wrthyf am rôl eich swydd? Beth yw eich prif gyfrifoldebau?** | ***Nodiadau'r broses***<br>*Diben yr adran hon yw casglu gwybodaeth allweddol am y darparwr er mwyn i ni allu creu proffil o'r darparwyr sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil a rhoi'r cyfle i gyfranogwyr 'gynhesu' cyn i ni gyrraedd craidd y drafodaeth.* |

Ymwybyddiaeth o Fodd 5 (10 munud)

| | |
|---|---|
| Hoffwn ddechrau gyda chwpwl o gwestiynau am eich dealltwriaeth o Fodd 5.<br><br>**B1. Allech chi roi crynodeb i mi o beth yw Modd 5 yn eich dealltwriaeth chi?** *Os oes angen, rhowch ddiffiniad: Modd 5 yw'r agweddau hynny o wasanaethau sydd wedi eu cynnwys mewn nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu nad ydy'r rheolau masnach presennol yn gallu eu rheoli nhw'n briodol. Enghreifftiau o hyn yw gwerthu cynnyrch a ddaw gyda chontract gwasanaethu parhaus, gwasanaethau hyfforddi neu offer diagnosis o bell; neu werthu car sy'n cynnwys gwasanaethau llywio neu ddiweddariadau i'r meddalwedd*<br><br>**B2. Pa mor gyfarwydd ydych chi â'r syniad o Fodd 5?**<br><br>**B3. Sut ydych chi'n disgrifio neu'n siarad am wasanaethau sydd wedi eu cynnwys yn eich gwerthiannau nwyddau?**<br>• Sut fyddech chi fel arfer yn cyfeirio at y gwasanaethau hyn?<br>• Pa fathau o eiriau ydych chi'n eu defnyddio?<br>• A oes unrhyw ymadroddion neu derminoleg arbennig?<br><br>OS NAD YDYNT WEDI CRYBWYLL Y TERMAU HYN YN BAROD: Ydych chi'n defnyddio'r term gwasaneiddio? Neu 'wasanaethau cynwysedig'? | *NODIADAU'R BROSES: Pwrpas yr adran hon yw deall rhagor am ymwybyddiaeth busnesau o Fodd 5 a'r geiriau maen nhw'n eu defnyddio mewn perthynas ag o* |

Effaith Modd 5 (10 munud)

| | |
|---|---|
| **C1. Sut fyddech chi'n disgrifio eich profiad o allforio gwasanaethau yn rhan o nwydd?**<br>• Allforio? Mewnforio?<br>• Ydy busnesau bob amser wedi cynnwys gwasanaeth neu wasanaethau yn rhan o'r nwyddau y maent yn eu hallforio, neu ydy hyn yn rhywbeth a gyflwynwyd ganddynt yn fwy diweddar?<br>• OS FELLY: Pryd wnaethon nhw gynnwys gwasanaethau yn rhan o'r nwyddau a allforiant am y tro cyntaf? Pam wnaethon nhw gyflwyno hyn?<br><br>**C2. Pa mor bwysig yw gwasanaethau Modd 5 i'ch aelodau o ran gwerth a throsiant?**<br><br>**C3. Ydych chi'n gweld bod gwasanaethau Modd 5 wedi effeithio/heb effeithio ar werth masnach nwyddau?**<br>• Pam ydych chi'n dweud hyn?<br><br>**C4. A yw'r lefel o fusnes / masnach wedi newid o ganlyniad i gyflwyno gwasanaethau yn gynwysedig mewn nwyddau?**<br><br>**C5. Beth yw'r prif bethau sydd wedi gyrru'r newid hwn?**<br>• A yw'r lefel o allforion nwyddau gyda gwasanaethau'n gywysedig wedi newid o ganlyniad i newidiadau ehangach yn y farchnad e.e. digido, datblygiadau mewn technoleg neu reolau masnach?<br>• Beth yw'r newidiadau hyn?<br>• Beth yw eu heffaith? | ***Nodiadau'r broses***<br>*Pwrpas yr adran hon yw deall rhagor am nodweddion allweddol Modd 5 a'r effaith maen nhw'n ei gael ar fusnesau* |

Heriau gyda Modd 5 (5 munud)

| | |
|---|---|
| **D1. Ydych chi wedi wynebu unrhyw heriau gyda gwasanaethau Modd 5 neu ydych ch'n ymwybodol o fusnesau sy'n wynebu heriau gyda Modd 5?**<br>• Allforio? Mewnforio?<br>• Unrhyw rwystrau penodol?<br>• Ydych chi / ydyn nhw wedi goresgyn yr heriau hyn, os oes rhai?<br><br>**D2. Ydy'r ffaith bod gwasanaethau'n gynwysedig yn y nwyddau a allforiant yn golygu bod busnesau'n teimlo mai dim ond i rai gwledydd ac nid i eraill y gallant allforio?**<br>• Pa wledydd yw'r rhain?<br>• Rhowch hwb i ganfod y gwahaniaethau yng Ngogledd Iwerddon ac Iwerddon.<br><br>**D3. A yw'r ymadawiad â'r UE wedi effeithio ar fasnach Modd 5?**<br>• Sut?<br>• A oes ffocws ar wledydd nad ydynt yn yr UE?<br>• Ydy hyn wedi golygu eich bod yn masnachu yn ddomestig bron yn llwyr?<br><br>**D4. A oes unrhyw ffactorau eraill sydd wedi effeithio ar eich masnach Modd 5?**<br>• Brexit?<br>• Covid-19?<br>• Digido?<br>• Newidiadau i gadwyni cyflenwi?<br>• Unrhyw beth arall? | ***Nodioadau'r broses***<br>*Pwrpas yr adran hon yw dod i ddeall unrhyw heriau y mae busnesau wedi eu hwynebu o bosib gyda Modd 5* |

Gwybodaeth a Chymorth gyda Modd 5 (5 munud)

| | |
|---|---|
| **E1. Ydych chi wedi ceisio unrhyw wybodaeth yn ymwneud â gwasanaethau Modd 5 (hynny yw, allforio gwasanaethau yn rhan o nwydd)? I ble aethoch chi?**<br><br>**E2. Pa mor ddefnyddiol oedd y ffynhonnell wybodaeth hon?**<br><br>**E3. Ydych chi wedi gofyn am unrhyw gymorth mewn perthynas â gwasanaethau Modd 5?**<br>• I ble'r aethoch chi i gael hyn?<br>• Am ba fath o gymorth oeddech chi'n chwilio?<br>• Oeddech chi wedi gallu cael gafael ar y cymorth roeddech chi wedi gobeithio amdano?<br>• Pa mor effeithiol oedd y cymorth? | |

Diolch a Chau (3 munud)

| | |
|---|---|
| **F1. Ymhle ydych chi'n gweld eich sector yn y tair blynedd nesaf mewn perthynas â'ch defnydd o wasanaethau Modd 5?**<br>**F2. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am wasanaethau Modd 5 nad ydym wedi eu trafod heddiw?** | |

| |
|---|
| DIOLCH I'R YMATEBWR A CHAU'R CYFWELIAD |